Adnabod Awdur

Hywel Griffiths

Ganwyd fi yng Nghaerfyrddin a chefais fy magu ar fferm nid nepell o bentref Llangynog. Digwyddiadau'r fferm oedd yn bwysig yn ystod fy magwraeth – helpu gyda'r cynhaeaf gwair, wyna ac ati. Dechreuais sgwennu o ddifri yn Ysgol Bro Myrddin a dysgu barddoni a chynganeddu yng nghwmni Eurig Salisbury. Cyrhaeddais Aberystwyth ym Medi 2001 ac 'wy ddim wedi gallu dianc o'r lle! Erbyn hyn rwy'n ddarlithydd daearyddiaeth yn Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear y Brifysgol ac yn byw ym mhentref Tal-y-bont gydag Alaw, fy nyweddi, a Modlen y gath. Enillais gadair Eisteddfod yr Urdd ym Môn yn 2004 ac yn Sir Gâr yn 2007, a choron yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2008. Cyrhaeddodd fy nghasgliad unigol cyntaf o gerddi, ***Banerog***, restr fer Llyfr y Flwyddyn 2009. Rwy'n aelod o dîm talwrn y Glêr, a thîm ymryson y Deheubarth ac yn mwynhau cymryd rhan mewn stompiau a nosweithiau barddoniaeth ar hyd a lled Cymru. Bûm yn gadeirydd Cymdeithas yr Iaith am gyfnod, ac rwy'n dal i fod yn weithgar gyda'r mudiad. Rwy'n hoff iawn o gerdded, chwarae pêl-droed, gwylio ffilmiau, darllen, teithio a thynnu lluniau, ond prin yn cael amser i wneud yr un ohonynt yn iawn!

Dirgelwch y Bont
(enillydd Gwobr Tir na n-Og 2011)
£4.99 Gwasg Gomer

Tir na n-Og
Gwobr 2011

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL
gwales.com
llyfrau ar-lein books online
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government
2011

Adnabod Awdur

Hywel Griffiths

Dyddiad Geni 18/03/1983

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Ganwyd fi yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin a magwyd fi ar fferm yn ardal Llangynog.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Llangynog, Ysgol Gyfun Bro Myrddin a Phrifysgol Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn yn hoff iawn o'r gwersi, yn enwedig Cymraeg, Saesneg, Daearyddiaeth a Mathemateg. Doeddwn i ddim yn licio'r pwysau i fod yn cŵl, achos doeddwn i ddim ar y pryd, a dwi ddim wedi bod ers hynny!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Cogydd, ffotograffydd, neu warden mewn parc cenedlaethol. Dwi'n meddwl mai ffotograffydd yr hoffwn i fod ar ôl tyfu i fyny.

Pa rai oedd eich hoff lyfrau yn blentyn? Unrhyw un o lyfrau'r ***Famous Five*** gan Enid Blyton, ***Corn, Pistol a Chwip*** gan T. Llew Jones. Yn ddiweddarach, ***The Hobbit*** a ***The Lord of the Rings*** gan Tolkien.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Darllen, gwylio ffilmiau, cerdded, garddio, ffotograffiaeth, pêl-droed.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Ymlacio ac ysgrifennu; bod gyda ffrindiau.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Gormod o brysurdeb, gorfod cyfiawnhau gwneud pethau yn Gymraeg dro ar ôl tro, tlodi a rhyfel, ymysg nifer o bethau eraill.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Yn yr ysgol gynradd, dwi'n meddwl, y mae'r cof cyntaf gen i o sgwennu rhywbeth, a chael canmoliaeth amdano. Cerdd oedd hi. Yn yr ysgol uwchradd wedyn, dechreuais sgwennu straeon byrion yn ymwneud â chefn gwlad.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? Llyfr o farddoniaeth ar y cyd gyda nifer o'm ffrindiau o'r enw ***Crap ar Farddoni***. ***Dirgelwch y Bont*** yw fy nofel gyntaf.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Digwyddiadau bob dydd, straeon ar y newyddion, lleoedd arbennig, siarad â ffrindiau, yn enwedig beirdd a nofelwyr eraill. Mae hynny wastad yn ysbrydoli rhywun.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Gwnewch, a pheidiwch â bod ofn methu. Arbrofwch. Sgwennwch er eich mwyn eich hunain, ac yna dangos eich gwaith i bobl eraill.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Hoffwn allu canu offeryn, medru canu mewn tiwn, a newid fy ngwallt.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? Mae gormod i'w henwi i gyd! ***C'mon Midffîld***, ***Teulu'r Mans***, ***The Simpsons***, ***Lost***, ***24***, ***Friends***, rhaglenni natur. Rwy'n gwrando ar y radio yn aml iawn ac yn hoff o raglenni fel ***The News Quiz***, ***Just a Minute*** a ***The Archers***!

Beth yw eich hoff fwyd? Allwch chi ddim curo brecwast wedi'i goginio. Dyw e ddim yn iach, ond mae'n hyfryd.

Pa rai yw eich hoff lefydd yn y byd? Tir uchaf y fferm adref, lle mae modd gweld y Preseli a bryniau gorllewinol y Mynydd Du – mi allwn eistedd yno am hydoedd.

Oes ganddoch chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? O ran pethau materol, copïau o gerddi cyfarch gan ffrindiau imi a'r gwobrau rwyf wedi'u hennill mewn eisteddfodau. Ond mae cwmni teulu a ffrindiau'n llawer iawn pwysicach.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Modlen y gath, yn enwedig pan mae hi eisiau rhywbeth.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Oes, ond maen nhw'n gyfrinachol!

Lluniau: Emyr Jenkins